

1a) Offeryn Asesu Iechyd y Geg

Dyddiad: ___/___/___

Gwybodaeth am y Preswlywr	Wedi'i gwblhau gan	
Enw Cyntaf	Dyddiad Geni	
Cyfenw	Ystafell	

Rhowch sgôr i bob categori, gan gylchu ie neu na lle bo'n briodol. Mae sgorio 1 neu 2 mewn unrhyw gategori yn gofyn am weithredu gan ddeintydd.

0 = Iach 1 = Newidiadau 2 = Ddim yn iach

Rhaid gwneud asesiad newydd

- Pan fydd y preswlydd yn mynd i'r cartref gofal
- Ar ôl unrhyw newid sylweddol
- Bob 12 mis

Gwefusau

- 0 Llyfn, pinc, llaith
- 1 Sych, wedi cracio neu'n goch yn y corneli
- 2 Chwyddiadau neu lymphiau, llain wen, goch neu wserau; gwaedu neu wserau yn y corneli

Poen Deintyddol

- 0 Dim arwyddion ymddygiadol, geiriol, corfforol o boen deintyddol
- 1 Mae arwyddion geiriol a/neu ymddygiadol o boen fel tynnu wyneb, cnoi gwefusau, peidio â bwyta, ymddygiad ymosodol
- 2 Mae arwyddion o boen corfforol (y bochau neu gig y dannedd wedi chwyddo, dannedd wedi torri, wserau), yn ogystal ag arwyddion llafar a/neu ymddygiadol (tynnu wyneb, peidio â bwyta, ymddygiad ymosodol)

Dannedd

- 0 A oes ganddynt ddannedd naturiol? Oes/Nac oes
- 1 Dim dannedd na gwreiddiau dannedd wedi pydru neu dorri
- 2 1-3 dant neu wreiddiau dannedd wedi pydru neu dorri neu gryn draul ar y dannedd
- 3 4+ o ddannedd neu wreiddiau wedi pydru neu wedi torri, neu gryn draul ar y dannedd, neu lai na 4 dant.

Glendid y Geg

- 0 Glân, dim gronynnau bwyd na deintgen yn y geg nac ar y dannedd gosod
- 1 Gronynnau bwyd, deintgen neu blac mewn 1-2 ran o'r geg neu'r dannedd gosod neu halitosis (anadl drwg)
- 2 Gronynnau bwyd, deintgen neu blac yn y rhan fwyaf o'r geg neu ar y dannedd gosod neu halitosis difrifol

Tafod

- 0 Llaith a garw fel sy'n arferol, pinc
- 1 Gwahanol liwiau, agennau, coch, haen dros y tafod
- 2 Rhannau coch a/neu wyn, wserau, wedi chwyddo

Dannedd Gosod

- 0 A oes ganddynt ddannedd gosod? Oes /Nac oes
- 1 Dim manau na dannedd wedi torri, dannedd gosod yn cael eu gwisgo'n rheolaidd ac enw'r preswlydd arnynt
- 2 1 man neu ddant wedi torri neu ddannedd gosod wedi'u gwisgo am 1-2 awr y dydd yn unig, neu ddannedd gosod yn rhydd neu heb enw'r preswlydd arnynt.
- 3 Mwy nag un man neu ddant wedi torri, dannedd gosod ar goll neu heb eu gwisgo, yn rhydd ac angen eu gludo neu heb enw'r preswlydd arnynt.

Poer

- 0 Meinweoedd llaith, poer dyfrllyd sy'n llifo'n rhydd
- 1 Meinweoedd sych, gludiog, ychydig o boer, y preswlydd yn meddwl bod ganddo geg sych
- 2 Mae meinweoedd yn goch a sych, ychydig neu ddim poer, poer trwchus, y preswlydd yn meddwl bod ganddo geg sych

Cig y dannedd a Meinweoedd

- 0 Pinc, llaith, llyfn, dim gwaedu
- 1 Sych, sgleiniog, garw, coch, chwyddedig, 1 wiser neu fan ddoluriol o dan y dannedd gosod
- 2 Chwyddedig, yn gwaedu, wserau, rhannau gwyn/coch, cochni cyffredinol o dan y dannedd gosod

Cyfanswm Sgôr

/ 16

Camau Gweithredu Nesaf

Preswlydd a/neu deulu neu warcheidwad wedi gwrthod triniaeth ddeintyddol

Trefnu i breswlydd gael archwiliad deintyddol gan ddeintydd

Cwblhau cynllun gofal hylendid y geg a dechrau ymyriadau gofal hylendid y geg ar gyfer y preswlydd

Dyddiad arfaethedig yr adolygiad nesaf:

1b) Ymwybyddiaeth o lechyd y Geg a Gweithredu

I bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, mae'r geg yn bwysig ar gyfer bwyta, yfed, siarad a gwenu. Gall gofal geneuol da rwystro poen/haint a chyfrannu at ansawdd bywyd da. Gall yr awgrymiadau canlynol eich helpu i ofalu'n dda am y geg.

Lefel y Cymorth Darganfyddwch faint o gymorth sydd ei angen

Dim
(Annibynnol)

Angen
Atgoffa

Arsylwi a
Helpu


Cymorth
Corfforol

Ymddygiad
Gwrthwynebus



Rheolaidd Gall gofalu am y geg ddwywaith y dydd atal poen a haint.

- Tynnwch unrhyw ddannedd gosod a'u glanhau â brws dannedd gosod.
- Brwsiwch y dannedd gyda phast dannedd fflworid.
- Siaradwch â deintydd y preswlydd am y past dannedd a'r brws dannedd gorau i'w defnyddio.



Siwgr Mae siwgr mewn bwyd a diodydd yn achosi pydredd dannedd a phoen/haint.

- Cadwch siwgr i amser prydau - rhwng prydau bwyd anogwch fyrbrydau sawrus (e.e. tost gyda menyf, caws, rholiau selsig).
- Defnyddiwch felysyddion yn hytrach na siwgr mewn te a choffi.
- Defnyddiwch hufen a menyf i ddarparu egni yn hytrach na siwgr



Ceg Sych Mae ceg sych yn gwneud pydredd dannedd a phoen/haint yn fwy tebygol.

- Anogwch sipiadau mynych o ddŵr.
- Defnyddiwch Vaseline yn rheolaidd ar wefusau'r preswlydd.
- Siaradwch â deintydd y preswlydd am eli poer artiffisial.
- Siaradwch â meddyg y preswlydd am feddyginiaethau sy'n gwaethgu sychder y geg.



Poen Mae'n hanfodol eich bod yn darganfod a oes poen a haint yn y geg a bod y preswlydd yn cael ei weld yn gyflym gan ddeintydd.

Os na all y preswlydd ddweud wrthyf fod ganddo boen, efallai y sylwch chi ar newidiadau yn eu hymddygiad a allai awgrymu poen a haint. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Gwingo neu wneud ystumiau wrth fwyta neu yfed.
- Dal yr wyneb neu wyneb chwyddedig.
- Gwrthod bwyd neu ddiodydd, deffro o gwsg yn fwy rheolaidd nag arfer.